Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service



GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2023-2026

# CYNNWYS

| | | |
|---|---|---|
| 01 | Rhagair | 2 |
| 02 | Pwy Ydym Ni | 3 |
| 03 | Ein Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyfreithiol | 5 |
| 04 | Nodau Cydraddoldeb Strategol | 6 |
| 05 | Ymgynghori ac Ymgysylltu | 13 |
| 06 | Atodiadau | 15 |

# RHAGAIR



**Huw Jakeway QFSM**
Prif Swyddog Tân

**Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) ar gyfer 2023-2026, sy'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf.**

Bydd yr amcanion a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael eu hymgorffori ym mhopeth a wnawn a byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion corfforaethol ehangach yn ein **'Cynllun Strategol 2020-2030'** a'n **'Strategaeth Pobl a Datblygu Gweithredol 2021-2024'**. Mae'r ffordd hon o weithio yn ein galluogi i fonitro'n gywir y gwelliannau a wnawn a datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn i'n holl gymunedau a rhanddeiliaid.

Mae ein cymunedau, rhanddeiliaid a gweithwyr yn chwarae rhan allweddol wrth i ni gyflawni ein gweledigaeth, sef **'Gwneud De Cymru'n fwy diogel wrth leihau risg'**. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i lunio'r ffordd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu nawr ac yn y dyfodol. Gallai hyn fod drwy ddylanwadu ar yr hyn y gallwn ei wneud i fod yn gyflogwr mwy amrywiol a chynhwysol, sut y gallwn ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb yn well, neu drwy ymgysylltu a chyfathrebu â phawb sy'n berthnasol. Mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn effeithiol o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015.


Darlledwyd erthygl newyddion ymchwiliol gan gwmni ITV ar y 12fed a'r 13eg o Ragfyr 2022, yn adrodd canlyniadau dau achos disgyblu hanesyddol a ymchwiliwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth. Mewn ymateb i'r erthygl newyddion bryderus hon, fe gomisiynais i, fel Prif Swyddog Tân Adolygiad Annibynnol o ddiwylliant, prosesau disgyblu ac achosion disgyblu hanesyddol y Gwasanaeth. Penododd Panel Annibynnol Fenella Morris KC fel Cadeirydd Annibynnol i arwain adolygiad y Gwasanaeth. Mae Fenella Morris KC yn rhagdybio bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cydnabod fod ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) yn allweddol wrth i ni gwrdd â'n gweledigaeth, ac eto rydym yn ymwybodol fod gennym fwy eto i'w wneud i sicrhau gall ein cymunedau, ein rhanddeiliaid a'n gweithwyr fyw'n rhydd rhag anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac aflonyddwch. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn ein helpu i wneud camau tuag at Gymru decach.

# PWY YDYM NI

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gwasanaethu tua 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 awdurdod unedol yn rhanbarth De Cymru. Ni yw un o Wasanaethau Tân ac Achub fwya'r DG, yn cwmpasu 1,100 milltir sgwâr a thros 650,000 o aelwydydd a 35,000 o safleoedd busnes.

Mae'r Gwasanaeth yn cael ei lywodraethu gan Awdurdod Tân ac Achub de Cymru (ATADC). Mae ATADC yn cynnwys 24 o aelodau'n cynrychioli'r 10 Awdurdod Unedol rydym yn eu gwasanaethu ac fe nodwyd ei swyddogaethau craidd o fewn Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004




Mae'r Gwasanaeth yn gwasanaethu poblogaeth amrywiol o fewn Cymru ac yn ymateb i dros 17,000 o alwadau brys bob blwyddyn. Yn ogystal â'n hymateb brys, rydym yn canolbwyntio'n helaeth ar atal a diogelu ein cymunedau ehangach, sydd hefyd yn cynnwys ffocws penodol ar gefnogi ein grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a allai fod mewn perygl mwy o ddioddef o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol oherwydd anfanteision lluosog.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd dros 365 diwrnod y flwyddyn. Rydym yn sefydliad ymroddedig, proffesiynol a gofalgar gyda dros 1,600* o staff yn gweithio mewn rolau Gweithredol, Corfforaethol a Rheoli.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd dros 365 diwrnod y flwyddyn. Rydym yn sefydliad ymroddedig, proffesiynol a gofalgar gyda dros 1,600* o staff yn gweithio fel: Diffoddwyr Tân Llawn Amser (806), Diffoddwyr Tân Ar Alwad (528), Cyd-reoli Tân (41), staff Corfforaethol (390), Gwirfoddolwyr (31) a Diffoddwyr Tân Cynorthwyol (71).

*Tua, dyddiedig 1af Chwefror 2023

# EIN GWELEDIGAETH, CENHADAETH A'N GWERTHOEDD

Ein Gweledigaeth yw **"Gwneud De Cymru yn fwy diogel trwy leihau risg."** Rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy:

## EIN CENHADAETH

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Wasanaethu anghenion ein cymunedau
- Weithio ag eraill
- Wynebu heriau wrth arloesi a gwella
- Leihau risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- Lwyddo i wneud De Cymru'n ddiogelach

## EIN GWERTHOEDD

Sy'n diffinio beth yw ein cred;

**Ein rheolau craidd**

Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â'r Gwasanaeth, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg ar bob adeg.

- Gofalgar
- Ymroddgar
- Disgybledig
- Grymus
- Proffesiynol
- Hydwyth
- Parchus
- Dibynadwy

Fel Gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r canlyniadau gorau i'n cymunedau a'n gweithwyr trwy arfer gorau parhaus o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan sicrhau bod hyn yn dod yn rhan annatod o'n gwasanaeth bob dydd.

# EIN DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU CYFREITHIOL

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru awydd i roi CAC wrth wraidd popeth a wnawn, gan ymdrechu i'r eithaf i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Nod y strategaeth hon yw sicrhau cynnydd yn erbyn ein cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol. Yma rydym yn amlinellu ein hymagwedd at ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau yn ogystal â sut rydym yn bwriadu adrodd arnynt.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i bob cyflogwr ac yn amlinellu cyfres o ddyletswyddau sy'n ceisio amddiffyn cymunedau, rhanddeiliaid a gweithwyr rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

O dan y Ddeddf hon rhaid i ni anelu at weithio tuag at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC). Mae hyn yn cynnwys:

- Gwaredu ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill a waherddir gan y Ddeddf neu o dani;
- Dyrchafu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol â'r rhai nad sy'n rhannu;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad sy'n rhannu.

Yn ogystal â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymdrechu i ymgorffori dyletswyddau ychwanegol allweddol o fewn Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 gan gynnwys cynyddu cynhwysiant a thegwch ar gyfer grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol (Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) a hefyd ar gyfer yr iaith Gymraeg. Nod hyn yw creu Cymru fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

## Adrodd

Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'n ofynnol i ni gadw at ddyletswyddau penodol y DU o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n cynnwys:

- Darparu gwybodaeth gyhoeddedig yn flynyddol sy'n dangos ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb;
- Paratoi a chyhoeddi ein hamcanion cydraddoldeb sy'n anelu at gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol;
- Sicrhau bod yr holl amcanion yn benodol, yn fesuradwy ac yn cael eu cyhoeddi mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb.

Bydd yr holl adroddiadau CAC a gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau ac amcanion yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefannau allanol.

# AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL

Mae'r adran hon yn cynnwys yr amcanion cydraddoldeb newydd yr ydym wedi'u gosod hyd at 2026. Mae'r amcanion wedi'u rhannu'n dri maes allweddol:

**'Ein Gwasanaethau a'n Seilwaith'**

**'Ein Diwylliant'**

**'Ein Pobl'**

Mae pob amcan yn dangos yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd gennym.

Cyflwynir y cynllun hwn ar draws y sefydliad i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

# EIN GWASANAETHAU A'N SEILWAITH

**Amcan 1: Sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cynnwys a'u bod ar flaen y gad o ran cynllunio a darparu gwasanaethau, gan sicrhau mynediad cyfartal i bawb.**

## Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Sicrhau ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir;
- Meithrin perthnasoedd gyda grwpiau allanol sy'n ceisio mewnbwn ar sut y gallwn eu gwasanaethu'n well;
- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol, Elusennau, Byrddau Iechyd a sefydliadau eraill i gyfuno adnoddau i leihau 'blinder ymgynghori';
- Gofyn i'n cymunedau am adborth ar beth a sut rydym yn ei wneud. Defnyddio data i sicrhau ein bod yn cyrchu pob grŵp trwy fynd â'n gwasanaethau atyn nhw;
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r sawl yr ydym yn eu gwasanaethu i roi gwybod iddynt beth yr ydym yn ei wneud a pham;
- Darparu prosesau Asesu Integredig cadarn lle caiff yr holl gamau gweithredu eu hasesu i sicrhau eu bod yn addas i bawb;
- Casglu a dadansoddi data i sicrhau ein bod yn gynhwysol ar draws pob grŵp;
- Cysylltu adborth a barn ein cymunedau, rhanddeiliaid a gweithwyr trwy gydol trafodaethau'r Uwch Dîm Rheoli.

## Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:

- Asesiadau Integredig yn cael eu cwblhau ar draws y sefydliad a'u dychwelyd i'w cyhoeddi;
- Penderfyniadau Uwch Reolwyr yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb yn gyson;
- Data o ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau yn portreadu adborth gan bartneriaid a chymunedau;
- Canlyniadau ein prosesau ymgysylltu yn cael eu rhannu o fewn ein hadolygiadau strategol;
- Ein cofrestr cydweithredu yn parhau i dyfu a datblygu sut rydym yn rheoli ein gwasanaethau;
- Ein hadborth gan gymunedau a phartneriaid yn dangos bod ein gwasanaethau yn addas i'r diben ar gyfer holl aelodau'r gymuned.

# EIN GWASANAETHAU A'N SEILWAITH

**Amcan 2: Alinio seilwaith ein Gwasanaeth i'n galluogi i fodloni gofynion bod yn gyflogwr safon byd.**

## Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Gydweithio ag eraill i rannu dysgu ac adnoddau;
- Nodi a sefydlu atebion creadigol a thechnoleg sy'n darparu Gwasanaeth Tân ac Achub yr 21ain Ganrif sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant a thegwch;
- Sicrhau bod ein gweithwyr yn cael yr hyfforddiant a'r adnoddau perthnasol i'w cefnogi wrth ymgysylltu â busnesau, rhanddeiliaid a chymunedau Cymreig amrywiol;
- Barhau â'n rhaglen datblygu cyfalaf i greu gweithleoedd a chyfleusterau hygyrch a chynhwysol;
- Sicrhau bod ein cyflenwyr hefyd yn bodloni ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i CAC, y cyflog byw real a chaethwasiaeth gyfoes;
- Barhau i hyrwyddo a sefydlu'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad;
- Ddarparu prosesau Asesu Integredig cadarn lle caiff ein seilwaith ei asesu i sicrhau ei fod yn addas i bawb.

## Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:

- Rydym yn mabwysiadu cyfleoedd arfer gorau sy'n darparu tegwch a chynhwysiant;
- Bydd adborth gan grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol yn dangos bod ein gwasanaethau yn addas i bawb (ymgynghori a chydweithio);
- Bydd data hyfforddiant i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu a gweithgareddau'n gysylltiedig â gwaith yn dangos cynnydd yn y cyfraddau cwblhau;
- Bydd ein mentrau datblygu cyfalaf newydd yn dangos gwelliannau sy'n creu gweithleoedd cynhwysol hygyrch gwasanaeth tân ac achub modern;
- Bydd cyflenwyr yn darparu eu cod ymddygiad mewn perthynas ag CAC ac Asesiad Integredig sy'n dangos sut mae eu gwasanaethau'n bodloni ein gwerthoedd a'n hamcanion CAC;
- Rydym yn derbyn adborth gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth a data hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwella Cymraeg gweithwyr mewnol.

# EIN DIWYLLIANT

**Amcan 3: Sefydlu diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws GTADC.**

## Gwnawn ni hyn drwy'r canlynol:

- Cynnal deialog parhaus am CAC;
- Archwilio ffyrdd o hyrwyddo CAC ar gyfer y dyfodol. Gorfodi ymagwedd nad yw'n caniatáu gwahaniaethu, rhagfarn, aflonyddu a bwlio;
- Herio ymddygiadau a geiriau nad ydynt yn gydnaws â safonau ymddygiad a gwerthoedd disgwyliedig ein Gwasanaeth neu Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân;
- Adolygu'n barhaus polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo diwylliant diogel, teg a chynhwysol lle mae cydweithwyr yn rhydd i fynegi eu hunain yn y gweithle a lle mae'r holl weithwyr yn teimlo bod ganddynt lais;
- Cynnal rhwydweithiau sy'n hyrwyddo CAC ar draws y sefydliad. Canolbwyntio ar arfer da yn unol ag argymhellion rhwydwaith CAC CPTC.

## Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:

- Bydd ein hymgysylltiadau â gweithwyr yn dangos cynnydd o ran ymgysylltu ac adborth cadarnhaol ill dau, e.e. trwy ein harolwg Buddsoddi mewn Pobl (BmP), Fforwm Shout ac ati;
- Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn bellgyrhaeddol, gan feithrin arfer gorau, gydag Asesiad Integredig;
- Dengys adborth gan rwydweithiau mewnol fod polisïau a gweithdrefnau'n gweithio i bawb;
- Bydd ein rhwydweithiau'n rhagweithiol wrth sicrhau bod CAC yn flaengar yn yr holl ymgysylltiadau â gweithwyr, yn gweithredu fel hyrwyddwyr gweledol, yn herio ymddygiad anghynhwysol a hwyluso sgyrsiau pwysig;
- Rydym yn parhau i weithredu arweiniad gan Rwydwaith CAC CCPT.

# EIN DIWYLLIANT

**Amcan 4: Sicrhau bod yr holl arweinwyr yn arwain trwy esiampl, bod yn fodelau rôl gan hyrwyddo CAC ar draws GTADC.**

## Gwnawn ni hyn drwy’r canlynol:

- Corffori Fframwaith Arweinyddiaeth y CPTC;
- Sicrhau bod yr Uwch Dîm Rheoli â grym i weithredu fel hyrwyddwyr Amrywiaeth ac yn fodd i gyflwyno newidiadau CAC;
- Sicrhau bod uwch arweinwyr, rheolwyr a hyrwyddwyr yn amlwg iawn o ran eu hymroddiad i CAC;
- Diffinio a sefydlu atebolrwydd arweinyddiaeth ar gyfer CAC ar holl lefelau arweinyddiaeth;
- Sefydlu CAC o fewn ein rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, gan ddyrchafu galluoedd arweinyddiaeth ar gyfer holl agweddau CAC;
- Darparu sgiliau ac adnoddau i’r holl arweinyddion i gynhyrchu ‘diwylliant gwrthwynebydd’ ar draws y Gwasanaeth, a thrwy hynny gyfyngu ar ymddygiad ‘gwyliedydd’.

## Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:

- Fydd holl aelodau’r Uwch Dîm Rheoli wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ar bwysigrwydd CAC o fewn arfer gorau strategol;
- Bydd arweinyddiaeth fwy gweledol mewn perthynas â materion CAC lle mae uwch arweinwyr yn hyrwyddwyr ac eiriolwyr amlwg ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig a grwpiau a thangynrychiolir, e.e. trwy herio ymddygiadau a meddylfryd, gan osod CAC ar agenda’r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau, mynychu digwyddiadau CAC;
- Bydd data ac adborth ar draws y sefydliad yn dangos newid sylweddol o ran ymddygiad ac agwedd mewn perthynas ag ymddygiad ‘gwyliedydd’ (cyfweliad ymadael, arolygon o’r diwylliant, achosion disgyblu ac ati.)

## EIN POBL

**Amcan 5: Cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth.**

### Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Hyrwyddo GTADC fel cyflogwr o ddewis sy'n wirioneddol gynhwysol, gan sefydlu CAC yn ein holl weithgareddau wrth hyrwyddo gyrfaoedd o fewn GTADC;
- Arddangos y strwythurau cymorth amrywiol a buddion y gall y sefydliad ddarparu i weithlu amrywiol ar bob lefel o fewn y Gwasanaeth;
- Diddymu rhwystrau (rhai gwirioneddol a'r rhai a ganfyddir) wrth recriwtio a dyrchafu i holl swyddi'r Gwasanaeth drwy greu prosesau a gweithgareddau dethol a chadw, a gefnogir gan Asesiad Integredig cadarn;
- Llunio cyfathrebiadau, ymgyrchoedd cyfryngau a denu cynhwysol sy'n adeiladu ar ddatblygu ymgysylltu o fewn grwpiau a dangynrychiolir. Bydd y rhain yn cynnwys darparu digwyddiadau gweithredu cadarnhaol cynhwysol a chyson sy'n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal;
- Sicrhau gweithgareddau dethol ac asesu teg a thryloyw ar gyfer pob lefel ar draws y sefydliad trwy ddarparu recriwtio effeithiol, tueddiad anymwybodol a hyfforddiant CAC;
- Cefnogi unigolion o grwpiau a nodweddion gwarchodedig i gael cyfleoedd cyfartal o ran dyrchafu i'r lefel uwch, e.e. hyfforddi a mentora ac ati.

### Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan:

- Fydd ein dogfennaeth cyfathrebu a recriwtio/dethol yn gynhwysol fel y dengys adborth gan ein cymunedau;
- Fydd mwy o adroddiadau ar Asesiadau Integredig ar gyfer yr holl brosesau denu, dethol ac asesu ar gael;
- Fydd ceisiadau recriwtio yn dangos cynnydd o ran amrywiaeth ar bob lefel ar draws y Gwasanaeth;
- Fydd ystadegau ar gyfer recriwtio, tuedd anymwybodol a hyfforddi CAC yn dangos fod yr holl weithwyr sy'n cynnal gweithgareddau recriwtio, dethol ac asesu wedi cael yr hyfforddiant perthnasol;
- Fydd cynllunio data yn dangos fod cynnydd mewn paneli cyfweld amrywiol;
- Fydd cynnydd, yn ôl data gan y gweithlu, o ran grwpiau a dangynrychiolir ar draws holl lefelau'r Gwasanaeth;
- Fydd ystadegau yn dangos cynnydd mewn partneriaethau hyfforddi a mentora i bobl sydd â nodwedd warchodedig;

# EIN POBL

**Amcan 6: Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cefnogi gan y polisïau, arfau a phrosesau i sicrhau tegwch o fewn y gweithle.**

## Gwnawn ni hyn drwy:

- Greu, corffori a chefnogi pob unigolyn gyda pholisïau a gweithdrefnau priodol sydd wedi derbyn Asesiadau Integredig;
- Gydweithio gydag arbenigwyr pwnc mewnol ac allanol i sicrhau arfer gorau wrth greu a corffori unrhyw weithgareddau a all effeithio ar nodwedd warchodedig neu grŵp a dangynrychiolir;
- Sicrhau bod ceisiadau rhesymol am newid yn cael eu hasesu yn unol â gweithdrefnau'r Gwasanaeth gan ffocysu ar yr unigolyn;
- Sicrhau bod ein cynllun Niwroamrywiaeth a strwythurau cymorth ar waith ac yn cael eu hyrwyddo ar draws y Gwasanaeth;
- Corffori rhwydweithiau staff o fewn y Gwasanaeth gyda ffocws ar degwch, cynhwysiant a lles, e.e. Grŵp Gweithlu Cynhwysol, hyrwyddwyr CAC a hyrwyddwyr Lles ac ati;
- Sicrhau bod yr holl unigolion yn cael pecyn dysgu cynhwysol am faterion CAC;
- Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael mynediad at Adolygiad Personol i ganolbwyntio ar eu lles, profiadau yn y gweithle a'u perfformiad yn ystod y flwyddyn;
- Sicrhau bod gan nodweddion gwarchodedig gynlluniau gweithredu penodol i sicrhau bod eu profiadau yn y gweithle yn deg ac yn gynhwysol.

## Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo:

- Pan fyddwch yn cael adborth cadarnhaol gan yr holl grwpiau o fewn y Gwasanaeth mewn perthynas â chynhwysoldeb ein polisïau;
- Pan fydd rhwydweithiau mewnol yn gweld cynnydd o ran ymgysylltu a chwblhau cynlluniau gweithredu;
- Pan fydd data gan Asesiadau Niwroamrywiaeth a Phasborts Gweithio gyda Fi yn dangos cynnydd o ran ceisiadau am newidiadau rhesymol;
- Pan fydd cofnodion hyfforddi CAC yn dangos cynnydd o ran cyfraddau cwblhau;
- Pan fydd cyfraddau cwblhau'r broses Adolygiad Personol yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn;
- Pan fydd GTADC wedi cyhoeddi camau gweithredu ar gyfer nodweddion gwarchodedig penodol, e.e. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhyw, Gwrth-hiliol.

# YMGYNGHORI AC YMGYSYLLTU

Cyhoeddir y ddogfen hon ar ein gwefan a cheir adroddiadau blynyddol i asesu cynnydd.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026 yn ganlyniad i ymgynghoriadau â phartneriaid allanol, ein Grŵp Gweithlu Cynhwysol mewnol, Undebau Gweithwyr, a'n cydweithwyr mewnol.

Byddwn yn adolygu ein hamcanion yn barhaus i sicrhau eu bod yn bwrpasol ac yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau a gweithlu amrywiol.

Fel gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn falch i wasanaethu ein cymunedau amrywiol yng Nghymru ac rydym yn eich annog i'n hysbysu sut y cawn barhau i gwrdd â'ch anghenion.

Os hoffech chi ymgysylltu â ni am unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn neu gael y wybodaeth hon mewn fformat amgen, mae croeso i chi ymgysylltu â ni ar:

amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk

**Arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,**
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg – byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

# ATODIADAU

## Atodiad 1 : Demograffeg Staff

## Atodiad 2 : Demograffeg Cymunedol

Cymerir data cymunedol o Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol Cymru : Cyfrifiad 2021.

# ATODIAD 1

# DEMOGRAFFEG STAFF

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru dros 1600 o weithwyr. Mae'r data sy'n gynwysedig o fewn Atodiad 1 yn benodol i nifer y gweithwyr unigol o fewn y Gwasanaeth (h.y., yn canolbwyntio ar rif y pen o fewn y Gwasanaeth yn hytrach na chytundebau), felly o fewn cyhoeddiadau ychwanegol i'r Gwasanaeth, efallai bydd y data'n ymddangos yn wahanol neu'n anghymesur wrth adolygu grwpiau penodol sefydliadol neu o grwpiau o blith y Gwasanaeth. Darperir pob un categori o fewn y gyfres ddata yn wirfoddol heblaw am 'Oed' a 'Hunaniaeth Rhywedd'. Mae hyn yn golygu na fyddwn, efallai, yn dal cymaint o wybodaeth cydraddoldeb ynghylch ein staff ag y dymunwn. Efallai bydd y modd rydym yn casglu a chipio'r wybodaeth hon yn newid dros gyfnod o amser wrth i ni chwilio i wella ein prosesau mewnol. Casglwyd y data dilynol hwn i ddarparu cipolwg o'r Gwasanaeth fel y mae ar y 1af o Chwefror 2023 ac fe'i defnyddir fel gwaelodlin i fesur wrth adrodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn i'r dyfodol.

## Oed

| Ystod Oedran | | |
|---|---|---|
| < 20-25 | 168 | 9.9% |
| 26-35 | 436 | 25.8% |
| 36-45 | 487 | 28.8% |
| 46-55 | 435 | 25.7% |
| 56-65 | 140 | 8.3% |
| 66->70 | 25 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Tarddiad Ethnig

| Tarddiad Ethnig | | |
|---|---|---|
| Cymreig | 495 | 29.3% |
| Prydeinig | 443 | 26.2% |
| Arall | 17 | 1% |
| Gwyn | 34 | 2% |
| Seisnig | 21 | 1.24% |
| Ewropeaidd | <5 | <0.5% |
| Cymysg (Asiaidd/Gwyn) | <5 | <0.5% |
| Teithiwr | <5 | <0.5% |
| Cymysg (Du Caribïaidd/Gwyn) | <5 | <0.5% |
| Du (Affricanaidd) | <5 | <0.5% |
| Albanaidd | <5 | <0.5% |
| Gwyddelig | <5 | <0.5% |
| Gwell gennyf beidio datgan | 27 | 1.6% |
| Heb ei ddatgelu | 646 | 38.2% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Crefydd

| Crefydd | | |
|---|---|---|
| Bwdhaeth | 3 | 0.17% |
| Crediniaeth | 182 | 10.8% |
| Dim Crefydd/Cred | 164 | 9.7% |
| Arall | 25 | 1.5% |
| Gwell gennyf beidio datgan | 625 | 37% |
| Heb ei ddatgelu | 692 | 40.9% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Cymraeg ei hiaith

| Cymraeg ei hiaith | | |
|---|---|---|
| Lefel 0 | 204 | 12.06% |
| Lefel 1 | 42 | 2.48% |
| Lefel 2 | 16 | 0.9% |
| Lefel 3 | 10 | 0.6% |
| Lefel 4 | 6 | 0.35% |
| Lefel 5 | 9 | 0.53% |
| Heb ei ddatgelu | 1,404 | 83.02% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | | |
|---|---|---|
| Deurywiol | <5 | <0.5% |
| Hoyw | <5 | <0.5% |
| Heterorywiol | 493 | 29% |
| Lesbaidd | <5 | <0.5% |
| Arall | <5 | <0.5% |
| Gwell gennyf beidio datgan | 544 | 32% |
| Heb ei ddatgelu | 643 | 38% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Iaith Gymraeg

| Sgiliau Cymraeg | | |
|---|---|---|
| Lefel 0 | 626 | 37.01% |
| Lefel 1 | 94 | 5.5% |
| Lefel 2 | 42 | 2.48% |
| Lefel 3 | 28 | 1.65% |
| Lefel 4 | 18 | 1.06% |
| Lefel 5 | 31 | 1.83% |
| Heb ei ddatgelu | 852 | 50.38% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Anabledd

| Anabledd | | |
|---|---|---|
| Oes | 9 | 5% |
| Heb ei ddatgelu | 1,682 | 95% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

## Hunaniaeth Rhyw

| Rhyw | | |
|---|---|---|
| Benywaidd | 300 | 17.7% |
| Gwrywaidd | 1,391 | 82.3% |
| **Cyfanswm** | **1,691** | **100%** |

# ATODIAD 2

# DEMOGRAFFEG CYMUNEDOL*

## Oed

| Ystod Oedran | | |
|---|---|---|
| 17 ac iau | 314,348 | 20.6% |
| 18-24 | 135,737 | 8.9% |
| 25-34 | 204,948 | 13.4% |
| 35-44 | 188,522 | 12.4% |
| 45-54 | 195,811 | 12.8% |
| 55-64 | 196,025 | 12.9% |
| 65-74 | 158,069 | 10.4% |
| 75+ | 130,445 | 8.6% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | **100%** |

## Hunaniaeth Rhyw**

| Rhyw | | |
|---|---|---|
| Yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth | 5,570 | 0.4% |
| Yr un â'r rhyw gofrestwryd ar enedigaeth | 1,165,636 | 93.7% |
| Heb ateb | 72,972 | 5.9% |
| **Cyfanswm** | **1,244,178** | **100%** |

## Rhyw

| Rhyw | | |
|---|---|---|
| Benyw | 778,892 | 51.1% |
| Gwryw | 745,023 | 48.9% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | **100%** |

## Tarddiad Ethnig

| Tarddiad Ethnig | | |
|---|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig | 61,105 | 4% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 20,630 | 1.4% |
| Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog | 31,050 | 2% |
| Grŵp ethnig arall | 17,953 | 1.2% |
| Gwyn | 1,393,179 | 91.4% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | **100%** |

*Cymerir data cymunedol o Swyddfa Ystadegau Gwladol Cymru: Cyfrifiad 2021.

## Crefydd

| Crefydd | | |
|---|---|---|
| Bwdhaidd | 4,682 | 0.3% |
| Cristion | 606,240 | 39.8% |
| Hindw | 8,360 | 0.5% |
| Iddewig | 1,225 | 0.1% |
| Mwslemaidd | 50,278 | 3.3% |
| Dim Crefydd | 752,916 | 49.4% |
| Heb ateb | 89,719 | 5.9% |
| Crefydd arall | 7,496 | 0.5% |
| Sikh | 2,989 | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | **100%** |

## Anabledd

| Anabledd | | |
|---|---|---|
| Ychydig yn Gyfyngedig | 170,220 | 11.2% |
| Cyfyngedig Iawn | 164,277 | 10.8% |
| Ddim yn Anabl | 1,189,408 | 78.1% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | |

## Sgiliau Iaith Gymraeg

| Sgiliau Cymraeg Iaith | | |
|---|---|---|
| Peth Sgiliau Iaith Gymraeg | 228,543 | 15% |
| Ddim yn gymwys | 46,587 | 3.1% |
| Dim Sgiliau Iaith Gymraeg | 1,248,77 | 81.9% |
| **Cyfanswm** | **1,523,901** | **100%** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | | |
|---|---|---|
| Pob cyfeiriadedd rhywiol arall | 3,630 | 0.3% |
| Deurywiol | 16,663 | 1.3% |
| Hoyw neu Lesbaidd | 20,746 | 1.7% |
| Heb ateb | 86,924 | 7% |
| Syth neu Heterorywiol | 1,116,211 | 89.7% |
| **Cyfanswm** | | **100%** |

## Cymraeg eu hiaith

| Cymraeg eu Hiaith | | |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad Cymraeg | 152,850 | 10% |
| Methu siarad Cymraeg | 1,324,468 | 86.9% |
| Nid yw'n berthnasol | 46,587 | 3.1% |
| **Cyfanswm** | **1,523,905** | **100%** |

**Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr yn ôl hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

# Prif Iaith

| Prif Iaith | | |
|---|---|---|
| Iaith Affricanaidd | 2,303 | 0.2% |
| Arabeg | 6,106 | 0.4% |
| Creol Caribïaidd | 6 | 0% |
| Nid yw'n berthnasol | 46,587 | 3.1% |
| Iaith Dwyrain Asia | 6,230 | 0.4% |
| Saesneg neu Gymraeg yng Nghymru | 1,419,783 | 93.2% |
| Ffrangeg | 941 | 0.1% |
| Gogledd / De America | 3 | 0% |
| Cefnforol / Awstralia | 13 | 0% |
| Ewropeaidd arall | 20,513 | 1.3% |
| Iaith Arall | 146 | 0% |
| Arall y DU | 71 | 0% |
| Portiwgaeg | 2,173 | 0.1% |
| Rwsiaidd | 740 | 0% |
| Iaith Arwyddo | 613 | 0% |
| Iaith De Asia | 11,665 | 0.8% |
| Sbaeneg | 1,943 | 0.1% |
| Twrceg | 1,163 | 0.1% |
| Iaith Gorllewin neu Ganol Asia | 2,905 | 0.2% |
| **Cyfanswm** | **1,523,904** | **100%** |

## Statws Priodasol a Phartneriaeth Sifil

| Statws Priodasol a Phartneriaeth Sifil | | |
|---|---|---|
| Wedi ysgaru / Mewn partneriaeth sifil gynt bellach wedi'i ddiddymu'n gyfreithiol | 129,124 | 7.7% |
| Nid yw'n berthnasol | 300,366 | 18.4% |
| Mewn partneriaeth sifil gofrestredig | 2,678 | 0.2% |
| Priod | 583,808 | 34.7% |
| Erioed wedi priodi a byth wedi cofrestru partneriaeth sifil | 522,979 | 32% |
| Wedi Gwahanu | 27,676 | 1.7% |
| Gweddw / Partner sy'n goroesi o bartneriaeth sifil | 90,437 | 5.3% |
| **Cyfanswm** | **1,657,068** | **100%** |

## Amddifadedd Aelwydydd

| Amddifadedd Aelwydydd | | |
|---|---|---|
| Aelwyd yn ddifreintiedig mewn pedwar dimensiwn | 1,419 | 0.2% |
| Aelwyd yn ddifreintiedig mewn un dimensiwn | 233,909 | 32.9% |
| Mae aelwyd yn amddifad mewn tri dimensiwn | 34,521 | 4.9% |
| Mae aelwydydd wedi'u hamddifadu mewn dau ddimensiwn | 115,595 | 16.3% |
| Nid yw'r aelwyd wedi'i hamddifadu mewn unrhyw ddimensiwn | 324,820 | 45.7% |
| **Cyfanswm** | **710,264** | **100%** |

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

@TânDeCymru

@TânDeCymru

@sw_fire_and_rescue

Cynlluniwyd gan y Cyfryngau a Chyfathrebu - GTaADC 2023 - Rh/G 3969/EO